CABINET

DYDD LLUN, 14 HYDREF 2024

PRESENNOL Cynghorydd D. Price (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

G. Davies	H.A.L. Evans	L.D. Evans	P.M. Hughes
A.C. Jones	A. Lenny	J. Tremlett	

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

E.G. Thomas A. Vaughan Owen

Hefyd yn bresennol fel sylwedydd (Yn rhithwir):
Y Cynghorydd D.M. Cundy

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
W. Walters, Prif Weithredwr
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
O. Lloyd, Cyfarwyddwr Addysg, Plant a Gwasanaethau Teuluoedd
S. Murphy, Pennaeth y Gyfraith Llywodtaethau a Gwasanaethau Sifil
I. Jones, Pennaeth Hamdden
J. Jones, Pennaeth Gwasanaethau Integredig dros dro
J. Martin, Rheolwr Gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
C. Higginson, Rheolwr Cyfryngau
Ll. Jenkins, Swyddog Cymorth y Cabinet
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
D. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau

Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 10.00 - 10.12 yb

[Noder: Ar ddechrau'r cyfarfod, cyfeiriodd y Cadeirydd at ymddeoliad y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant ac estynnodd ddymuniadau gorau'r Cabinet iddo ac am ei gyfraniad rhagorol i'r Cyngor. Croesawodd y Cadeirydd hefyd ei olynydd, Mr. Owain Lloyd, i'r cyfarfod ac estynnodd ei ddymuniadau gorau iddo yn ei rôl newydd].

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. I LOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD AR Y 30 MEDI 2024

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod Cabinet a gynhaliwyd ar 30 Medi 2024 yn gofnod cywir.

4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

6. POLISI TALIADAU UNIONGYRCHOL

Bu'r Cabinet yn ystyried polisi Taliad Uniongyrchol y Cyngor a oedd yn cynnig diwygiadau arfaethedig i adlewyrchu newidiadau mewn amgylchiadau. Roedd y cynllun yn galluogi unigolion cymwys i brynu'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i ddiwallu eu hanghenion llesiant eu hunain ac felly roedd yn cynnig mwy o ddewis, rheolaeth a hyblygrwydd i bobl a fyddai'n draddodiadol yn dibynnu ar eraill i drefnu eu gofal a'u cymorth.

Roedd adolygiad o'r polisi wedi dechrau i adlewyrchu bod yr awdurdod lleol wedi dechrau ei gynllun cymorth mewnol ei hun yn 2021 ac felly nid oedd yr awdurdod yn defnyddio Diverse Cymru mwyach i gefnogi'r gwaith o reoli taliadau uniongyrchol. Argymhellwyd gwelliannau ychwanegol hefyd i'w cymeradwyo er mwyn darparu mwy o fanylion ac eglurder mewn perthynas â chymhwysedd, meini prawf a threfniadau ar gyfer darparu taliadau uniongyrchol, fel y manylwyd yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Polisi Taliadau Uniongyrchol diwygiedig yn cael ei gymeradwyo.

7. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

8. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr

eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

9. HARBWR PORTH TYWYN - Y WYBODAETH DDIWEDDARAF A'R DEWISIADAU AR GYFER Y DYFODOL

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 8 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod oherwydd gallai datgelu'r wybodaeth hon danseilio safle'r awdurdod mewn unrhyw drafodaethau parhaus ac yn y dyfodol ynghylch yr Harbwr, ar draul y pwrs cyhoeddus.

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol yn Harbwr Porth Tywyn, yn dilyn y ffaith fod y tenantiaid Burry Port Marina Ltd (BPML) wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr, a nodi opsiynau posibl ar gyfer y dyfodol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:

9.1 nodi'r sefyllfa bresennol yn Harbwr Porth Tywyn;

9.2 symud ymlaen gydag Opsiwn 3.3 a nodir yn yr adroddiad, gyda Chyngor Sir Caerfyrddin yn gweithio mewn partneriaeth â gweithredwr trydydd parti ag enw da (Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau) cyn gynted â phosibl, i ddatblygu a chynnal yr harbwr.

_____ _____

CADEIRYDD DYDDIAD

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf